# Proffil Rôl

## Prentis Technegol (Pwyslais ar Lwyfan)

| | |
|---|---|
| Teitl y Rôl: | Prentis Technegol (Pwyslais ar Lwyfan) - cytundeb tymor sefydlog (12 Mis) |
| Oriau Gwaith: | 35 awr yr wythnos yn cynnwys dyddiau hyfforddi ac asesiad. |
| Cyflog: | £13,741(y flwyddyn) |

---

---

**Prif Bwrpas:**

Prif amcan y rôl hon yw datblygu sgiliau arbenigol a throsglwyddadwy, o gyfleoedd dysgu seiliedig ar waith mewn meysydd penodol i gynyrchiadau a phrosiectau byw ar gyfer y rhai sydd ar ddechrau eu gyrfaoedd technegol. Mae'r rôl hon yn canolbwyntio ar feysydd sy'n ymwneud â Chrefft Llwyfan, ymarfer Sain a Goleuo - gyda chyfle i archwilio adrannau eraill gan gynnwys Rheoli Llwyfan a Gwisgoedd.

Mae llawer o lwyddiant Canolfan y Celfyddydau, a'i gallu i ddenu ymweliadau dro ar ôl tro gan artistiaid a chwmnïau cenedlaethol a rhyngwladol, yn dibynnu ar ansawdd ac ymatebolrwydd ei gwasanaethau technegol. Nod Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth yw bod yn lleoliad dewis-cyntaf i gyflwynwyr digwyddiadau a pherfformiadau.

Disgwylir i ddeiliad y swydd gwblhau gwaith cwrs, asesiadau a modiwlau hyfforddi fel rhan o'u diwrnod gwaith, er mwyn ennill eu cymhwyster Lefel 3.

Bydd y rhai nad ydynt yn meddu ar radd C neu uwch mewn TGAU mewn Mathemateg, Saesneg a TG yn ymgymryd ag amryw o weithdai sgiliau hanfodol i ennill ardystiad cyfatebol.

Mae ceisiadau ar agor i ymgeiswyr 16 oed+ (gyda blaenoriaeth i'r rhai rhwng 18 a 30 oed).

Cyfweliadau - 13 Awst

**Cyfrifoldebau Arbenigol:**

O dan arweiniad adran dechnegol Canolfan y Celfyddydau a thiwtor yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro.

I. I ddarparu cefnogaeth weithredol a thechnegol ar alwadau sioe ar gyfer cynyrchiadau a gyflwynir yn neuadd gyngerdd, theatr a stiwdio Canolfan y Celfyddydau, ynghyd â phrosiectau a digwyddiadau eraill a gynhelir yn y Ganolfan yn gyson.

2. I gefnogi'r adran dechnegol gyda gwaith gosod i fyny ar gyfer cynyrchiadau - mae hyn yn cynnwys bod yn weithredol wrth gefnogi gyda chodi, rigio a ffocysu eitemau i'w sefydlu. Gall hyn gynnwys defnyddio offer a chyfarpar pŵer i adeiladu neu gynnal eitemau cynhyrchu.

3. I weithio yn unol â pholisi Iechyd a Diogelwch mewn cysylltiad â phob tasg ac i fynychu sesiynau hyfforddi i ddeall arferion ymhellach.

4. I fedru mynychu Wythnosau Hyfforddi ar y safle, gyda rhai sesiynau i ffwrdd o'r ganolfan, i wella eich gwybodaeth a'ch ymarfer.

5. Ymrwymiad i weithio gyda'r nos ac ar benwythnosau i gefnogi prosiectau.

6. I fod ar gael i fynychu'r Wythnos Sefydlu yn dechrau ar **Hydref 6ed** yng Nghanolfan Mileniwm Cymru.

7. I ymgymryd â gweithdai Dysgu Sgiliau Hanfodol ychwanegol - yn ôl yr angen.

8. I gwblhau modiwlau asesu academaidd o fewn y terfynau amser a'r ansawdd y cytunwyd arnynt.

Mesur Llwyddiant:

Cwblhau cyfres o weithdai hyfforddi proffesiynol ac unedau academaidd yn llwyddiannus.

Unedau Academaidd i ennill y dystysgrif Lefel 3 - Llwyfan, Goleuo a Sain.

- [TT01] Cadw i fyny efo datblygiadau technegol a chynhyrchu yn y celfyddydau byw..
- [TT10] Trin â llaw a chodi llwythi.
- [TT32] Cynorthwyo gyda rhedeg perfformiad byw.
- [TT37] Rheoli a marchnata eich gwasanaethau llawrydd eich hun.
- [TT39] Datblygu perthnasoedd gwaith effeithiol gyda chydweithwyr mewn lleoliad theatr.
- [TT40] Sicrhau cyfrifoldeb am weithredu i leihau risgiau i iechyd a diogelwch.
- [TT49] Cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch o'r gweithle.
- [TT67] Cynnal eitemau ac offer cynhyrchu.
- Tystysgrif mewn Egwyddor

Sgiliau Hanfodol (fel bo'n addas)

- Llythrenned Digidol (TG)
- AON (Mathemateg)
- COMMS (Saesneg)

Hyfforddiant Proffesiynol - o leiaf.

- Tystysgrif BIIAB (Lefel 3) mewn Theatr Dechnegol - Llwyfan, Sain a Goleuo
- Dyfarniad Efydd ABTT
- Ymarfer Rigio
- Ardystiad CRISP IOSH
- Ardystiad Profi PAT

**Mae'r proffil rôl hwn yn nodi prif ddyletswyddau'r swydd ar y dyddiad y'i lluniwyd. Gall y dyletswyddau amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y swydd na lefel y cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig â hi. Mae amrywiadau o'r fath yn ddigwyddiad cyffredin ac ni allant ynddynt eu hunain gyfiawnhau ailystyried gradd y swydd.**

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

# ‘Rydym yn Edrycn Am …

## Brentis Technegol

Wrth baratoi eich cais ysgrifenedig bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth ar gyfer y cymwysterau hanfodol a dymunol canlynol. Wrth ystyried pob un, defnyddiwch enghraifft o ble ‘rydych wedi gwneud hyn o'r blaen, unai mewn sefyllfa waith neu sefyllfa arall.

A. Cyfrifoldeb

Cyfeiriwch at sut yr ydych yn cyfarfod â’r gofynion hanfodol hyn yn eich cais.

| | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| 1. | Dealltwriaeth o Ddigwyddiadau Byw gyda diddordeb profedig | X | |
| 2. | Dealltwriaeth o Theatr Dechnegol gyda diddordeb profedig. | X | |
| 3. | Prawf o weithio i derfynau amser yn ymarferol ac mewn theori. | X | |

B. Gwybodaeth

Cyfeiriwch at sut yr ydych yn cyfarfod â’r gofynion hanfodol hyn yn eich cais.

| | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| 1. | Gwybodaeth am Reoli Digwyddiadau, hyrwyddo a mannau cefn llwyfan a'r offer/technegau a ddefnyddir. | | X |
| 2. | Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gref o Iechyd a Diogelwch - unai’n gyffredinol neu'n benodol i'r theatr. | X | |
| 3. | Gallu a pharodrwydd i ymgymryd â dysgu academaidd a gweithredu portffolios ar-lein wrth gasglu a lanlwytho tystiolaeth ar gyfer asesiadau. | X | |

C. Gwerthoedd

Cyfeiriwch at sut yr ydych yn cyfarfod â’r gofynion hanfodol hyn yn eich cais.

| | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| 1. | Agwedd gadarnhaol ac adeiladol tra’n cysylltu â chydweithwyr a chleientiaid, gan ddangos arweinyddiaeth a hyblygrwydd wrth ymdrin â thasgau. | X | |
| 2. | Cymryd y cam cyntaf a dangos hyder wrth wynebu heriau yn y gwaith neu'r coleg. | X | |
| 3. | Bod yn atebol wrth reoli eich wythnos waith i gwblhau modiwlau er mwyn ennill eich cymhwyster. | X | |

D. Cyfathrebu

Cyfeiriwch at sut yr ydych yn cyfarfod â’r gofynion hanfodol hyn yn eich cais.

| | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | Dangos sgiliau rhyngbersonol a gwaith tîm da wrth weithio o fewn sefydliad mawr gydag unigolion o gefndiroedd, safbwyntiau a hunaniaethau gwahanol. | X | |
| 2. | Llythrennog o ran cyfrifiaduron, prawf o weithio gyda phecynnau Microsoft Office a phortffolios ar-lein. | | X |
| 3. | Y gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg. | | X |

E. Amgylchedd

Cyfeiriwch at sut yr ydych yn cyfarfod â'r gofynion hanfodol hyn yn eich cais.

| | | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|---|
| 1. | Parodrwydd i weithio oriau anghymdeithasol, gan gynnwys penwythnosau a Gwyliau Banc. | X | |
| 2. | Dilyn polisïau Iechyd a Diogelwch sy'n gysylltiedig â gweithio y tu ôl i'r llwyfan, gan gynnwys gweithio ar uchder, trin â llaw a gweithio gyda thrydan, yn ogystal â gwisgo'r PPE priodol lle bo angen. | X | |
| 3. | Y gallu/parodrwydd i weithio ar uchder yn ddiogel. | | X |

F. Iaith Gymraeg

Cyfeiriwch at sut yr ydych yn cyfarfod â'r gofynion hanfodol hyn yn eich cais.

| | | Essential | Desirable |
|---|---|---|---|
| 1. | Y gallu siarad Cymraeg | | X |
| 2. | Y gallu i wrando a deall sgyrsiau yn y Gymraeg | | X |
| 3. | Y gallu i ysgrifennu yn y Gymraeg | | X |
| 4. | Y gallu i ddarllen deunydd Cymraeg | | X |